



## Uned 2, Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 3AW

Bethan Jenkins AC  
Cadeirydd  
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

27 Ebrill 2017

Annwyl Gadeirydd,

Diben y llythyr hwn ydy cyflwyno ymateb TAC i 'Gwthio'r Ffiniau', y ddogfen a gyhoeddwyd gan S4C yn gynharach y mis hwn i chi fel pwyllgor.

Gan fod y ddogfen wedi ei chyhoeddi ar ôl ein sesiwn dystiolaeth a'n gohebiaeth flaenorol, rydym yn awyddus i ddatgan bod S4C wedi cyflwyno achos cryf dros ddull ariannu gwirioneddol gynaliadwy yn ein tyb ni.

Mae S4C wedi datgan yn eglur ei huchelgais i fod yn wasanaeth cynnwys cyfryngau o safon wirioneddol uchel, ac i dywys yr iaith Gymraeg yn bellach i'r unfed ganrif ar hugain ar gynifer o lwyfannau â phosibl. Bydd hyn yn ffactor pwysig i Lywodraeth Cymru ei hystyried wrth wireddu eu targed o gyfleu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Er mwyn iddi gyflawni hyn, mae angen cynnydd sylweddol ar S4C yn lefel ei hariannu, a hynny am ddau reswm.

Yn gyntaf, mae'r ddogfen yn datgan bod angen £6m yn ychwanegol ar y sianel i alluogi iddi gynnal presenoldeb ar amrywiaeth o lwyfannau, ymhle bynnag mae ei chynulleidfa, a hynny ar ben parhau i ddarparu cynnwys mor gyfoes â phosibl drwy gyfrwng y Gymraeg.

Fel y trafodwyd yn ystod sesiwn dystiolaeth TAC, mae gofyn i gynnwys sy'n cael ei ddarparu i ddarllledwr fel S4C gael ei gynhyrchu'n broffesiynol er mwyn cynnal sylw'r gwylwyr a sicrhau bod y cynnwys hwnnw'n cynrychioli S4C ar ei gorau. Yn achos gofod ar-lein yn yr un modd, mae angen i unrhyw ddarn o gynnwys sy'n gysylltiedig â darllledwr gynrychioli safon a gwreiddioldeb ei allbwn. I ddyfynnu'r ddogfen: *'Fodd bynnag, mae angen newid sylweddol o hyd i ddarparu cynnwys ffurf-fer gwirioneddol wreiddiol, difyr, digidol yn gyntaf, fel ffilmiau byrion â thema neu gyfres o we-benodau.'* (t. 32).

Yn ail, eglura S4C fod cost gyfartalog yr awr ei rhaglenni eisoes yn llawer is na chyfraddau darllledwyr eraill, ac y cyflawnwyd hyn drwy wneud arbedion yn y sector cynhyrchu annibynnol, a thrwy fanteisio ar gwmp cymedrol ym mhris technoleg. Ond nawr, rydyn ni wedi cyrraedd pwynt lle mae galw cynyddol am gynnwys sy'n gweithio'n dda ar systemau

megis HD ac UHD, ac yn sgil hynny, mi allem ni weld patrymau costau cynhyrchu'n codi eto fyth yn hytrach na disgyn.

Hyd yn oed o ddiystyru ffactorau o'r fath, mae ffigyrau S4C ei hun yn rhagweld y bydd ei chyllideb cynnwys yn gostwng mewn gwerth dros y blynyddoedd nesaf. Bydd angen buddsoddiad ychwanegol er mwyn arbed y gostyngiad hwnnw a gwrthbwysu effaith chwyddiant yn sylweddol. Oherwydd effaith chwyddiant, dywed S4C yn y ddogfen fod angen '*cynnydd blynyddol sy'n tyfu o tua £2m ym mlwyddyn un hyd at tua £9m ym mlwyddyn pump dim ond er mwyn atal y gostyngiad mewn termau real yn y gyllideb cynnwys dros y pum mlynedd nesaf.*' (t. 30).

Yn ogystal, mae angen dybryd i ostwng lefelau ailddarlledu rhaglenni o'r 58% cyfredol ar y sianel linol, sydd wedi cynyddu o 54% yn 2010. Fel y dywed y ddogfen, mae hyn yn sylweddol uwch na chyfraddau ailddarlledu ar BBC1 ac ITV1, er enghraifft, sef 23% a 28% yn eu trefn yn 2016 yn ôl Ofcom.

Mae ymchwil annibynnol yn dangos bod pob £1 mae S4C yn ei gwario yn economi Cymru'n creu gwerth o £2.09, felly mi fuasai diogelu'r arian yn ysgogiad difrifol i greu swyddi a sefydlu busnesau cynaliadwy ar adeg pan rydyn ni'n wynebu ansicrwydd economaidd cynyddol.

Mi fuasai TAC, felly, yn annog y Pwyllgor i gefnogi ein cynnig y dylid cynyddu incwm cyhoeddus S4C gan swm sy'n cyfateb i 10% o gyfanswm ei lefel ariannu cyhoeddus cyfredol gan DCMS a Ffi'r Drwydded Deledu at ei gilydd. Dylai'r 10% hwn fod **yn atodol i'r** £6m y cyfeirir ato yn nogfen S4C er mwyn ei galluogi i ddarparu cynnwys ar bob llwyfan. O ganlyniad, buasai'r cynnydd yn y flwyddyn gyntaf oddeutu £14.3m.

Byddai'n angenrheidiol sicrhau bod y cynnydd ychwanegol hwn yn cael ei ddiogelu rhag unrhyw gynnydd pellach i lefel chwyddiant yn y dyfodol.

Gobeithio bydd y sylwadau pellach hyn o ddiddordeb i chi, ac mi fuasem yn hapus i ddarparu mewnbyn ychwanegol petai'r Pwyllgor yn dymuno i ni wneud hynny.

Yn gywir



Iestyn Garlick, Cadeirydd